



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau  
Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424110)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX ar **DYDD MERCHER, 28AIN TACHWEDD, 2018** am **5.00 PM**.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. CYHOEDDIADAU**

**3. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018, yn rhai cywir.

## LLYWODRAETHU AGORED

### 4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

### 5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- a) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar fuddsoddiad sylweddol y Cyngor yn ein mannau chwarae?"

- b) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i Arweinydd y Cyngor - y Cyngorydd A. Morgan:**

"A wnewch chi ddatganiad am y problemau a oedd wedi codi ar gyffordd newydd yr A4059 yn y Drenewydd, Aberpennar?"

- c) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A wnewch chi roi diweddariad ar y cynnydd sy wedi'i wneud tuag at gyflawni'r ymrwymadau cyhoeddus craidd a gafodd eu gwneud y llynedd?"

- d) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:**

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf a fydd yn cael effaith ar ein gwasanaethau cymdeithasol yn fuan?"

- e) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai - y Cyngorydd R. Bevan:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai ddatganiad am bwysigrwydd Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol."

**6. TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL**

Yn unol â Rheol 13 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor) i fod yn rhan o drafodaeth yr Arweinydd.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

**RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU**

**7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR A DYRANNU RHYBUDDION O GYNIGION**

Derbyn adroddiad ar y cyd y Cyfarwyddwr materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

**31 - 38**

**8. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018-19**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

**39 - 52**

**9. DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION (POLISI LLEOL) 2019-2021**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.

**53 - 110**

**10. CEFNOGI GWAITH AELODAU - CYFLEUSTERAU FFÔN AC E-BOST A MYNEDIAD ELECTRONIG AT WYBODAETH**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

**111 - 122**

**11. PENODI AELOD ANNIBYNNOL WRTH GEFN I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

**123 - 126**

## 12. COFNODI PRESENOLDEB AELODAU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

127 - 138

## 13. RHYBUDD O GYNNIG

Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau'r Cynghorwyr, W. Lewis, G. Caple, G.W. Hughes L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis a R. Yeo.

"Mae mwy na miliwn o bobl yn y DU yn cael eu heffeithio gan Niwed i'r Ymennydd (ABI) a bob 90 eiliad, caiff rhywun ei dderbyn i'r ysbyty gydag ABI, naill ai drwy anaf trawmatig neu gyflwr meddygol sy'n ymwneud â salwch.

Rydyn ni'n rhagweld bod hyn yn costio tua £15 biliwn y flwyddyn i'r economi. Serch hynny, dydy'r gwaith ymchwil a'r cymorth sydd ar gael ddim yn ddigonol. Mae hi'n hanfodol bod dioddefwyr yn cael mynediad at wasanaethau adsefydlu arbenigol cynnar, a hynny am eu bod nhw'n llai tebygol o ddychwelyd i'r gwaith a bod yn rhan weithgar o'r gymdeithas. Mae hyn yn cael effaith ar les emosiynol a chorfforol y dioddefwyr a'u cynhalwyr.

Mae plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd hefyd yn llawer mwy tebygol o gael ABI cyn iddyn nhw droi'n 5 oed. Dydy llawer o'r anafiadau yma ddim yn cael eu diagnosio ac maen nhw'n cael effaith sylweddol ar yr unigolyn am weddill ei oes.

Does dim canolfannau trawma ar raddfa fawr yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae angen i gleifion gael eu trosglwyddo i'r cyfleuster agosaf yn Lloegr. Yn aml, does dim ymgynghorwyr adsefydlu arbenigol yno chwaith.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi'r Elusen Anafiadau i'r Ymennudd, Headway, a chefnogi ei ymgyrchoedd yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth o'r effeithiau niweidiol iawn y mae modd i achosion o ABI eu cael.
- Gofyn i Arweinydd y Cyngor Ysgrifennu at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros lechyd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn gwneud cais i sefydlu canolfan drawma ar raddfa fawr yn rhanbarth De Cymru."

#### **14. BUSNES BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

#### **Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**